At Weinidogion Cymru,

**Dyletswyddau Adrodd Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013**

Yn unol â'r dyletswyddau o dan adran 7(3) a 10(2) o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, isod, dyma adroddiad blynyddol Cyngor Sir Ceredigion:

| | |
|---|---|
| Y camau sydd wedi'u cymryd i hybu teithiau llesol | Darparwyd hyfforddiant Kerbcraft i 192 disgybl ysgol gynradd.<br><br>Darparwyd hyfforddiant seiclo Safonau Cenedlaethol i 387 disgybl ysgol gynradd.<br><br>Hyrwyddwyd a chefnogwyd wythnos cerdded i'r ysgol gan y Swyddog Diogelwch y Ffyrdd mewn nifer o ysgolion cynradd<br><br>Cysylltodd yr Awdurdod â holl Ysgolion Cynradd er mwyn hyrwyddo eu henwebiad i gael eu cynnwys ar Deithio Llesol Sustrans o ran rhaglenni Ysgolion Cynradd. O ganlyniad cafwyd nifer uchel o geisiadau o Geredigion a derbyniwyd 10 ysgol i'r rhaglen uchod gan Sustrans. Roedd hyn oddeutu chwarter o'r llefydd ysgol sydd ar gael ar draws Cymru gyfan.<br><br>O ganlyniad i hyn bu i Sustrans greu swydd newydd Swyddog Ysgolion Ceredigion, a leolir yn yr Awdurdod fydd hefyd yn darparu cefnogaeth swyddfa a gweinyddol ar gyfer deiliad y swydd.<br><br>Crëwyd tudalen newydd ar wefan y Cyngor ar Deithio Llesol.<br><br>Gofynnwyd am ofynion Teithio Llesol a bu iddynt gael eu cynnwys fel rhan o'r amodau cynllunio ar gyfer safle datblygu tai Clwb Pêl-droed Tref Aberystwyth.<br><br>Gofynnwyd am ofynion Teithio Llesol fel rhan o amodau cynllunio ar gyfer datblygu safle AIEC Prifysgol Aberystwyth yng Ngogerddan ger Penrhyncoch.<br><br>Cafodd gofynion Teithio Llesol eu cynnwys yn y cynlluniau dylunio a gyflwynwyd ar gyfer Cyfnewidfa Trafnidiaeth newydd arfaethedig yn Bow Street a oedd yn cynnwys Gorsaf Reilffordd.<br><br>Gwnaed cyflwyniad i Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion i'w hysbysu o Deithio Llesol a'r gwaith perthnasol yn y Sir.<br><br>Roedd arolwg ar gael ar lein yn ystod mis Chwefror, er mwyn i'r cyhoedd a rhanddeiliaid ddarparu sylwadau ac awgrymiadau parthed Teithio Llesol a Mapiau Rhwydwaith Integredig caiff eu cyflwyno i'r Gweinidog ym mis Tachwedd 2017. |

| | |
|---|---|
| | Datganiadau i’r wasg lleol er mwyn hyrwyddo gwaith grant ar gyfer Teithio Llesol a seilwaith Llwybrau Diogel mewn Cymunedau. |
| Y camau sydd wedi’u cymryd i ddiogelu llwybrau teithio llesol newydd a chyfleusterau cysylltiol a gwelliannau | Dylech gyfeirio at ddogfen ar wahân o’r enw ‘Adroddiad Teithio Llesol Ceredigion 2016-17’ |
| Costau llwybrau a chyfleusterau teithio llesol newydd a gwelliannau i lwybrau a chyfleusterau teithio llesol cysylltiedig yn y flwyddyn ariannol flaenorol. | **Cronfa Trafnidiaeth Lleol**<br>• Mapio Teithio Llesol £2,945<br>• Ardal Teithio Llesol Aberteifi £164,284*<br>• Cysylltiadau seiclo a cherdded Ardal Aberystwyth & Phenparcau £138,109*<br><br>**Llwybrau Diogel mewn Cymunedau**<br>• Ysgol Bro Pedr, Llanbedr Pont Steffan £116,368*<br>• Cysylltiadau Troedffordd Ysgol Gynradd Rhydypennau £109,350*<br>• Ysgol Gynradd Talgarreg £35,487*<br><br>*gan gynnwys arian cyfatebol oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion a’r trydydd partïon a nodir isod.<br><br>**Grant Refeniw Diogelwch y Ffyrdd**<br>• Hyfforddiant Kerbcraft £16,199<br>• Hyfforddiant Seiclo Safonau Cenedlaethol £8,576 |

Yn ogystal â’r uchod (dewisol):

| | |
|---|---|
| Gwariant dangosol ar gyfer llwybrau a chyfleusterau teithio llesol newydd a gwelliannau i lwybrau teithio llesol cyfredol ynghyd â chyfleusterau cysylltiedig sy’n cael eu hariannu’n llawn neu’n rhannol gan drydydd parti. | **Cronfa Trafnidiaeth Lleol**<br>• **Ardal Teithio Llesol Aberteifi**<br>£5,000 o arian cyfatebol oddi wrth Gyngor Tref Aberteifi.<br><br>**Llwybrau Diogel mewn Cymunedau**<br>• **Ysgol Bro Pedr, Llanbedr Pont Steffan**<br>£8,000 o arian cyfatebol oddi wrth Gyngor Tref Llanbedr Pont Steffan |

Gwybodaeth ychwanegol (dewisol):

| |
|---|
| Amherthnasol |

Gallaf gadarnhau y bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi yn unol â’r Canllawiau Cyflawni statudol.

……………………………………

Eifion Evans
Dirprwy Brif Weithredwr
Cyngor Sir Ceredigion

Awst 2017

GOLUD·GWLAD·RHYDDID
Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

# Adroddiad Teithio Llesol 2016-17 – Cyngor Sir Ceredigion

## Cyflwyniad

O dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) Act 2013, dynodwyd tair tref yng Ngheredigion fel lleoliadau teithio llesol– Aberystwyth, Aberteifi a Llanbedr Pont Steffan. Bu i'r Ddeddf roi dyletswyddau newydd ar Lywodraeth Cymru a'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru. Bu Ceredigion am nifer o flynyddoedd – ac y mae'n parhau i fod – ar flaen y gad wrth ddarparu cyfleusterau seiclo a cherdded addas ar draws y Sir yn gyfan gwbl, gan ddarparu mynediad mwy diogel i addysg, hyfforddiant, gwaith , gwasanaethau bob dydd a hamdden.

Roedd 2016-17 yn brysur iawn ac yn flwyddyn lwyddiannus ar gyfer Teithio Llesol a gwelliannau Llwybrau Diogel i'r Ysgol yng Ngheredigion am fod y Cyngor wedi derbyn £526,225 o arian grant oddi wrth Lywodraeth Cymru. Roedd y swm yma gyda £30,100 o arian cyfatebol ychwanegol yn golygu gwerth £550,000 o gynlluniau ar draws y Sir yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae'r cynlluniau gwerthfawr yma a ariannwyd gan grant yn gweddu i'r dim gyda gweithgareddau addysg, hyfforddiant a chyhoeddusrwydd Diogelwch y Ffyrdd y Cyngor ei hun (megis Kerbcraft a Hyfforddiant Seiclo Safonau Cenedlaethol), darparu Hebryngwyr Croesfannau Ysgol a chynlluniau rheoli traffig megis yr Adolygiad Terfynau Cyflymder a weithredwyd yn ddiweddar ar draws y Sir. Yn ogystal mae'r cynlluniau seilwaith yma'n cyd-fynd â chynlluniau diogelwch a gwelliannau Llywodraeth Cymru ar Gefnffyrdd y Sir megis cyflwyno terfynau cyflymder rhan amser o 20 mya y tu allan i ysgolion.

Mae'r Cyngor yn buddsoddi cryn adnoddau wrth ddatblygu, cyflwyno ceisiadau am gynlluniau a gweithredu arnynt yn llwyddiannus o ran grantiau cyfalaf Llywodraeth Cymru ac eraill. Fodd bynnag er bod arian grant cyfalaf o fudd sylweddol sydd i'w groesau, wrth fwrw ymlaen mae'n dra phwysig fod refeniw digonol ar gael i'r awdurdod lleol er mwyn iddo fedru cynnal ei seilwaith cerdded a seiclo. Heb arian refeniw ar gyfer cynnal a chadw, trwsio ac adnewyddu, bydd y rhwydweithiau yma yn y diwedd yn dirywio ac yn y diwedd ni chânt eu defnyddio o gwbl a bydd hyn yn tanseilio'r holl waith da a wneir ar hyn o bryd.

## Cronfa Drafnidiaeth Leol – Aberteifi

Rhoddwyd grant o £109,575 gan Lywodraeth Cymru i wneud gwelliannau yn ardal Ysgol Gynradd Aberteifi, ac fe'u cyllidwyd yn rhannol gan Gyngor Tref Aberteifi.




Cafodd y cynllun ei weithredu a'i gyllido'n rhannol gan Gyngor Sir Ceredigion gan gyflwyno parth 20 milltir yr awr newydd gyda mesurau gostegu traffig i helpu i greu amgylchedd mwy diogel ac annog mwy o ddisgyblion i gerdded, sgwtera a beicio i'r ysgol.

Mae'r Teithiau Llesol yma'n helpu'r plant i fod yn fwy iachus, atal gordewdra, gwella canolbwyntio yn y dosbarth a hefyd yn helpu i leihau tagfeydd ac allyriadau carbon y tu allan i gatiau'r ysgol.

Diolch i'r cyllid grant, mae llochesi newydd i feiciau a sgwteri wedi cael eu codi ar dir yr ysgol, ac yn dilyn eu poblogrwydd gyda'r disgyblion mae lloches ychwanegol wedi cael ei hadeiladu ar gyfer sgwteri.






Mae troedffyrdd lletach gyda wynebau ffordd newydd a chroesfannau bwrdd wedi'u codi wedi cael eu gosod i helpu sgwteri symudedd a defnyddwyr cadeiriau gwthio.  Mae llwybr newydd wedi ei greu hefyd i'r pwll nofio ac y mae'r droedffordd ar hyd Gerddi Napier wedi ei lledu gan osod wyneb newydd arno fel gwelliant ychwanegol sy'n sicrhau budd cymunedol ychwanegol.

Isod: Lluniau cyn ac ar ôl y gwaith yn Ngerddi Napier.





Crëwyd taflen Siwrneiau Teithio Llesol mewn partneriaeth â'r Ysgol caiff ei dosbarthu i holl ddisgyblion:

ABERTEIFI ACTIVE JOURNEYS FLYER.pdf

(Ynghlwm hefyd fel dogfen ar wahân)

## Cronfa Drafnidiaeth Leol – Canol Dref Aberystwyth a chysylltiadau â Phenparcau

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi gorffen gwaith i wella llwybrau ym Mhenparcau, a gwaith sefydlu darpariaeth parcio beiciau yng nghanol y dref, yn dilyn £138,000 ychwanegol oddi wrth Gronfa Trafnidiaeth Leol Llywodraeth Cymru.



Mae'r llwybr sydd yn cysylltu Coedlan Pump â Llwybr Seiclo Rheidol wedi cael ei lydanu ac ail-wynebu a hefyd mae rheiliau newydd wedi cael eu gosod ar bont Saint Brieuc, sydd yn dod a'r bont lan i safonau Dylunio Llywodraeth Cymru ar gyfer defnydd gan seiclwyr a cherddwyr.

Mae mynediad i randir Coedlan Pump wedi cael ei gwahanu ar gyfer modurwyr, ac mae'r golau ar hyd y llwybr wedi cael ei uwchraddio hefyd, sydd yn gwneud y llwybr yn fwy diogel i'r defnyddwyr.





Chwith - cyn gwaith adeiladu





Mae'r llwybr trwy Barc Penparcau hefyd wedi ei lydanu ac ail-wynebu gan ddarparu llwybr gwell i seiclwyr a cherddwyr i Ysgol Gynradd Llwyn yr Eos. Mae goleuadau newydd hefyd wedi eu gosod ar y llwybr, a raciau sgwteri a beiciau newydd ar gyfer plant sydd yn defnyddio'r lle chwarae.

Mae Tîm Parciau a Gerddi'r Cyngor wedi plannu nifer o goed ym Mharc Penparcau a Choedlan Pump er mwyn gwella'r ardaloedd gwyrdd yma a gwella'r ecoleg, a gollir gan lydanu'r llwybrau.

Dde – cyn y gwaith





Dywedodd Rhodri Llwyd, Rheolwr Grŵp Priffyrdd Cyngor Sir Ceredigion: "Mae'r gronfa arian hefyd wedi talu am raciau sgwter angenrheidiol yn Ysgol Gynradd Plascrug ac yn Ysgol Gymraeg. Mae niferoedd y plant sydd yn defnyddio beiciau a sgwteri i wneud eu siwrnai llesol wedi dyblu dros y misoedd diwethaf, ac maen grêt i weld y raciau yn cael eu defnyddio, ac mae hyn hefyd yn cael effaith bositif ar helpu i leihau traffig ym Mhlascrug."

Mae'r safle seiclo wedi cael ei ailosod yn Ysgol Gynradd Llwyn yr Eos ac mae'r cyngor wedi darparu'r ysgolion yma efo dau sgwter newydd a helmedau diogelwch, a bydd yr ysgolion yn rhannu'r rhain rhwng y plant bydd yn ennill 'myfyrwyr yr wythnos.'

Hefyd, mae cyfleusterau parcio beic newydd wedi cael eu gosod yng nghanol tref Aberystwyth, er mwyn helpu seiclwyr i wneud y mwyaf o'r gwasanaethau lleol.  Mae cysgodfa beiciau newydd wedi ei gosod ger Canolfan Morlan ar y gyffordd â Morfa Mawr, a hefyd tu ôl Siop Matalan ger yr orsaf trenau.

Mae stondin newydd atgyweirio beiciau a phwmp teiars - y cyntaf o'i fath yng Ngheredigion – wedi cael ei osod wrth ochr y cysgodfa newydd ger yr orsaf drenau.  Mae gan y stondin nifer o offer i helpu seiclwyr atgyweirio eu beiciau a phwmpio teiars os oes angen.  Mae pwmp teiars newydd hefyd wedi cael ei osod wrth ochr y rac beiciau yn Stryd y Popty.

Isod: Seiclwyr proffesiynol Tîm Wiggins yn defnyddio'r cyfleusterau cyn râs Grand Prix Ceredigion yng Ngwyl Seiclo Aber 2017.







Mae'r rhain i gyd yn welliannau i’r isadeiledd seiclo a cherdded a fu o fudd i Aberystwyth a Phenparcau yn y blynyddoedd diwethaf er mwyn hyrwyddo mwy o siwrnai llesol i ysgol, swyddfeydd gwaith, gwasanaethau a chyfleusterau yn yr ardal.  Bydd y gwelliannau yma hefyd o gymorth i Aberystwyth fedru hoelio ei le fel cyrchfan sy’n croesau seiclwyr sydd hefyd yn fan da ar gyfer cael mynediad i deithiau seiclo pellter hir a chyfleusterau beicio mynydd fel yr hyn a geir yn Nant yr Arian.  Bydd gwell cyfleusterau i gerddwyr hefyd o fudd i bobl leol ac ymwelwyr â Cheredigion fydd yn medru cael mynediad i’r dref wrth gerdded llwybr yr arfordir.






## Gwelliannau Teithio Llesol yn Ysgol Bro Pedr, Llanbedr Pont Steffan yn dilyn derbyn Arian Llwybrau Diogel mewn Cymunedau

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi gweithredu ar nifer o welliannau diogelwch y ffyrdd y tu allan i Ysgol Bro Pedr yn ystod 2016/17 ac y mae hynny'n diolch i arian grant oddi wrth Gynllun Llwybrau Diogel Mewn Cymunedau, gyda chyfraniadau arian cyfatebol oddi wrth Gyngor Tref Llanbedr Pont Steffan a Chyngor Sir Ceredigion.  Gosodwyd mesurau tawelu traffig ardal 20mya gyda throedffyrdd lletach sydd â wyneb newydd yn ogystal ag uwchraddio goleuadau stryd er mwyn annog mwy o bobl i gerdded, seiclo a sgwtera i'r ysgol a'r cyfleusterau hamdden yn Peterwell Terrace.





Cyn gwaith adeiladu





Cyn y gwaith adeiladu

Cydlynwyd y cynllun gan yr Adran Briffyrdd er mwyn ymgymryd â'r gwaith o osod wyneb newydd ar y ffordd ar yr un pryd yn ogystal â chau'r ffordd adeg gwyliau'r haf.  Bu i hyn leihau ar yr anghyfleustra ar ddisgyblion, rhieni, staff yr ysgol a phreswylwyr lleol.  O ganlyniad mae'r gwaith yn ymddangos o ansawdd uchel gyda throedffyrdd, goleuadau stryd a wyneb newydd.

Bu i'r Cyngor fod yn llwyddiannus mewn grant pellach a chafwyd £56,800 ar gyfer gwelliannau i'r droedffordd yn Llanbedr Pont Steffan yn ystod 2017-18.  Mae arian cyfatebol o £6,200 ar gael oddi wrth Gyngor Tref Llanbedr Pont Steffan a £7,000 oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion felly mae cyfanswm y gyllideb yn £70,000 er mwyn darparu gwelliannau pellach i'r dref.

## Gwelliannau troedffyrdd Llwybrau Diogel mewn Cymunedau i Ysgol Gynradd Rhydypennau yn Bow Street

Bu i Lywodraeth Cymru ddarparu grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau o £104,400 er mwyn gwella cysylltiadau cerddwyr rhwng Stad Bryncastell a'r Ysgol Gynradd, sef 'Cam 2' y Cynllun. Mae hyn yn ychwanegol i'r £102,000 a gafwyd yn y flwyddyn flaenorol er mwyn cwblhau'r cyswllt troedffordd rhwng cymunedau Rhydypennau a Llandre – 'Cam 1'.

Yn ystod 2015-16 gosodwyd cysgodfa beiciau newydd a rac sgwteri wrth yr ysgol er mwyn annog mwy o ddisgyblion i sgwtio neu seiclo i'r ysgol.



2015-16 ‘Cam 1’

Cyn gwaith adeiladu



2015-16 ‘Cam 1’

Yn 2016-17 gweithredwyd ar ‘Gam 2’ y cynllun ac adeiladwyd troedffordd newydd ger y bont a oedd yn arwain i Stad Bryncastell.






Wrth weithio mewn partneriaeth â *Network Rail* a pherchnogion tir perthnasol eraill, roedd yr Awdurdod yn medru gosod y llwybr cyfredol yn ôl rhywfaint er mwyn creu System Blaenoriaethu Ildio ffurfiol newydd ar gyfer cerbydau sy’n teithio dros y bont gul.

Gosodwyd ffens ddiogelwch newydd yn ogystal â darn newydd o droedffordd.

Defnyddiwyd wyneb Coch Ffrithiant Uchel er mwyn amlygu’r darn i’w ddefnyddio gan gerddwyr dros y bont.

Bu i Gyngor Sir Ceredigion ddarparu arian cyfatebol o £11,600 ar gyfer y cynllun yma.

## Llwybr newydd yn Ysgol Gynradd Talgarreg o dan y Cynllun Llwybrau Diogel i'r Ysgol

Adeiladwyd llwybr troed â wyneb artiffisial newydd ar dir Ysgol Gynradd Talgarreg er mwyn darparu llwybrau mwy diogel i’r ysgol ar gyfer disgyblion.

Gweithredwyd ar y prosiect gan Gyngor Sir Ceredigion ac fe’i ariannwyd gan Grant Cynllun Llwybrau Diogel mewn Cymunedau o £31,500.  Bu i’r Cyngor gyfrannu arian cyfatebol o £3,500 er mwyn darparu cyfanswm cynllun o £35,000.

Mae'r Cynghorydd Sir Lleol, Gareth Lloyd, Aelod Cabinet Datblygu Economaidd, Datblygu Cymunedol, Diwylliant a Hamdden wedi croesawu agor y llwybr newydd.  Dywedodd "Gwych o beth oedd derbyn grant Llywodraeth Cymru.  Bu'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â Neuadd Bentref Talgarreg sydd wedi cytuno'n garedig y caiff y staff a'r rhieni ddefnyddio maes parcio'r neuadd yn ystod oriau agor yr ysgol a cherdded i'r ysgol ar y llwybr.”  Mae'r Cynghorydd Lloyd yn llywodraethwr yn yr ysgol hefyd ac fe ddywedodd “Mae llai o geir yn parcio o flaen yr ysgol yn barod a oedd yn arfer achosi tagfeydd a phroblemau diogelwch.  Yn lle gosod llwybr tarmac yng nghanol cae chwarae'r ysgol, a fyddai wedi bod yn anaddas iawn i'r plant, mae swyddogion priffyrdd Cyngor Sir Ceredigion wedi gosod llwybr ag arwyneb artiffisial, y cyntaf o'i fath yn y Sir, sy'n addas i'w ddefnyddio trwy gydol y flwyddyn.



Dywedodd Mrs Potter, Pennaeth Ysgol Gynradd Talgarreg: “Yr ydym yn defnyddio Neuadd y Pentref  yn ystod yr wythnos ar gyfer gwersi addysg gorfforol ac yn rheolaidd ar gyfer ymarferion at gyngherddau'r ysgol ac Eisteddfodau.  Roeddem yn arfer gorfod mynd â'r plant ar droed ar hyd y ffordd oherwydd does dim palmant.  Felly, mae'r llwybr newydd yn wych oherwydd ei fod yn llawer mwy diogel."

TALGARREG SAFE ROUTES 2016.pdf (Ynghlwm hefyd fel dogfen ar wahân)

**Ysgol Bro Teifi 3-19 yn Llandysul – Adeiladu ardal 20mya newydd â mesurau tawelu traffig a lloches croesfan i gerddwyr yn yr ysgol newydd.**

Ymgymerwyd â gwaith ymgynghori a dylunio gan staff y Gwasanaethau Priffyrdd er mwyn darparu ardal 20mya newydd â mesurau tawelu traffig yn barod ar gyfer agor yr ysgol 3 – 19 newydd ym mis Medi 2016.




Mae gan yr ysgol dros 1,000 o ddisgyblion a bu i'r adran hefyd weithredu ar greu llwybr â'i newydd â'i ddefnydd i'w rannu ar bwys Ffordd Llyn y Fran er mwyn darparu teithiau llesol llwybrau diogel i'r ysgol.




**Gari Jones**
**Peiriannydd Cynorthwyol Strategaeth Trafnidiaeth**
**Gwasanaethau Technegol**
**Cyngor Sir Ceredigion**
**gwasanaethau.technegol@ceredigion.gov.uk**

**Awst 2017**

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Caru·Love
Ceredigion